# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Agenda SJR(2) –12-06(p2)

## Dyddiad: Dydd Iau 21 Medi 2006
## Amser: 9.30am – 12.30pm
## Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Teitl: Camddefnyddio Sylweddau - 4ydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r 4ydd adroddiad blynyddol yn Atodiad 1, sy'n rhoi gwybodaeth am hynt y broses o weithredu Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cynulliad Cymru - "Delio ? hamddefnyddio Sylweddau - Y Dull Partneriaeth" yn ystod y 12 mis diwethaf.

### Cyflwyniad

Rydym oll yn cydnabod bod trechu camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn agenda enfawr ac yn un sy’n cyflwyno heriau sylweddol o hyd - rwy’n siwr y tynnwyd sylw Aelodau’r Pwyllgor at y ffaith hon yn ystod eu hadolygiad diweddar. Fodd bynnag, tra’n cydnabod bod tasg fawr o’n blaenau, credaf ei bod yn werth myfyrio ar y cynnydd a wnaed gennym, gyda chymorth y Pwyllgor hwn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd rhai o Aelodau’r Pwyllgor yn cofio’r sefyllfa a wynebwyd gennym pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am yr agenda hon i mi yn 2002. Nodwyd hyn yn glir mewn Adolygiad o Wasanaethau Trin Camddefnyddio Sylweddau a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Amlygwyd canfyddiadau allweddol yr Adolygiad hwnnw yn fy adroddiad cyntaf i’r Pwyllgor ar Gamddefnyddio Sylweddau ym mis Medi 2003 ynghyd ?146;m cynlluniau i fynd i’r afael ?hob un ohonynt. Y rhain oedd:

Nid oedd y strwythurau ar gyfer cyflawni’r strategaeth yn galluogi nac yn annog cydweithio na chysondeb ledled Cymru;

Roedd prinder arian, gormod o ffrydiau ariannu a dim sicrwydd y byddai arian ar gael y tu hwnt i flwyddyn ar y tro;

Nid oedd canllawiau canolog yn bodoli ar faterion comisiynu, safonau triniaeth, na modelau o arfer da;

Nid oedd data/gwybodaeth fonitro a gwerthuso yn bodoli bron ?od;

Cafwyd anawsterau difrifol i recriwtio a chadw staff;

Arweiniodd y diffyg cydweithio at ychydig iawn o gymorth yn cael ei roi i gyn droseddwyr, gan arwain at gylch o aildroseddu;

**Roedd y gallu i gael gafael ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn wael.**

3. Wrth i Aelodau’r Pwyllgor ddarllen yr adroddiad blynyddol diweddaraf hwn, mae’n werth ystyried y sefyllfa a wynebwyd gennym ond tair blynedd yn ?’i chyferbynnu ?146;r sefyllfa bresennol mewn perthynas ?146;r pwyntiau hyn. Gyda help a chefnogaeth ein partneriaid a’n rhanddeiliaid, credaf yn gryf ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ar bob un o’r blaenoriaethau allweddol hyn.

**Cydymffurfiaeth**

4. Rhydd adrannau 2, 3 a 23 o Ddeddf y GIG 1977, a weithredir ar y cyd ag adrannau 40 ac 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y sail statudol ar gyfer gwaith y Cynulliad o ran mynd i'r afael ? hamddefnyddio sylweddau. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i'r Cynulliad a'u dirprwyo i mi, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, fel y Gweinidog perthnasol. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud ?heoleidd-dra na phriodoldeb yn gysylltiedig ? papur hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

5. Mae'r holl fentrau a phrosiectau a ddisgrifir yn y papur hwn yn cael eu hariannu o'r hyn a ddarperir eisoes gan Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Prif Grwp Gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig ? papur hwn.

**Camau Gweithredu**

6. Nid oes angen i'r Pwyllgor gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas ? papur hwn.

**Pwynt Cyswllt – Cangen Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol.**

**CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU - 4YDD ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL**

**MYNEGAI**

| ADRAN | CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **SECTION 1** | DELIVERY OF THE STRATEGY AT A LOCAL & NATIONAL LEVEL<br><br>CSPs<br><br>Development of Local Services<br><br>Funding<br><br>Future Funding | 5<br><br><br><br><br><br>6<br><br>7 |
| **SECTION 2** | DEVELOPMENT OF CENTRAL GUIDANCE & PERFORMANCE MONITORING<br><br>Performance Management Framework<br><br>Welsh National Database for Substance Misuse<br><br>Performance Monitoring – KPIs<br><br>Waiting Times Audit<br><br>Research<br><br>Substance Misuse Treatment Framework<br><br>WIISMAT<br><br>Children & Young People's Module<br><br>Homelessness<br><br>Day & Community Support Services<br><br>Advice & Information | 8<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>9<br><br>10<br><br><br><br>11 |

| | | |
|---|---|---|
| | Specialist Services | |
| | Alcohol Services | 12 |
| | Support for Implementation of the Treatment Framework | |
| | Needle Exchange | |
| | Co-occurring substance misuse & mental health problems | |
| | Commissioning | |
| | Drug Related Deaths | 13 |
| **SECTION 3** | NATIONAL INITIATIVES & STRATEGY DEVELOPMENTS | 13 |
| | Hidden harm | |
| | DIP | 15 |
| | Drug testing on charge | 16 |
| | All-Wales drug & alcohol helpline | 17 |
| | Review of the substance misuse strategy | |

| | | |
|---|---|---|
| **SECTION 4** | Accommodation for young peopleOTHER DEVELOPMENTS & CENTRALLY FUNDED PROJECTS<br><br>Prison Support Workers<br><br>Transitional Support Scheme<br><br>Alcohol-related crime issues<br><br>Drug & Alcohol national occupational standards (DANOS)<br><br>Education & Prevention<br><br>Include<br><br>Operation Tarian<br><br>Conferences | 18<br><br>19<br><br>20<br><br>21<br><br>22 |
| SECTION 5 | CONCLUSION | 23 |